

LLEWELYN, SION (1690 - 1776), bardd

Enw: Sion Llewelyn
Dyddiad geni: 1690
Dyddiad marw: 1776
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd 30 Tachwedd 1690 yn Cefn Coed y Cymer, plwyf Vaynor (y Faenor Wen), sir Frycheiniog. Ychydig addysg a gafodd; dysgodd ddarlennu Cymraeg, ond ni wyddai ddim Saesneg. Ac eto cyhoeddodd y bardd hunan-ddiwylliedig hwn gyfrol o'i farddoniaeth a'i emynau a fu mor boblogaidd nes y bu raid cael pedwar (pump?) argraffiad ohoni; teitl argraffiad 1791 ydyw *Difyrrwch diniwaid ... Sef deunaw o Ganiadau ... Gyd a Naw o Hymnau duwiol*^[g].

Yn 18 oed daeth yn aelod yn hen gapel Cwmyglo ar ochr y mynydd rhwng Merthyr Tydfil ac Aberdâr. Arminiad oedd y bardd, fel ei weinidog, **Roger Williams**, a thrwy ei ganeuon gwnaeth lawer i wrthweithio dylanwad y syniadau Calfinaidd a goleddid gan rai o grefyddwyr y cylch. Yn 1747 symudodd yr Arminiaid i gapel newydd, yr Hen D Cwrdd yn Cefn, a daeth y bardd yn ddiakon cyntaf yr eglwys newydd honno. Gof ydoedd wrth ei alwedigaeth, eithr dywed un llawysgrif ei fod yn wehydd. Bu farw 1 Ionawr 1776 a'i gladdu yn nhir yr Hen D Cwrdd; rhoddwyd carreg goffa yn y capel ar 17 Awst 1947. yr iddo oedd **William Harri**, Garw Dyle, Penderyn.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

T. Lewis, *The History of the Hen Dy Cwrdd Cefn Coed y Cymmer* (1947)

W. Morgan, *The Vaynor handbook containing photographic views of Vaynor, Cefn Coed, Pontsarn and Morlais Castle, with the history and folk-lore of the parish* (Merthyr 1893)

NLW MSS 1159, 2196-7

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

Y Drysorfa Gynnulleidfaol (Abertawe 1843-1851)

Gweithiau

Sion Llewelyn, *Difyrrwch diniwaid, i blant i'w hystyriaid, i'w cwnnu ar gynnydd mewn deall a chrefydd: sef deunaw o ganiadau, ar amryw destynau* (Caerfyrddin 1770)

Sion Llewelyn, *Difyrrwch diniwaid i blant i'w hystyriaid: sef, Deunaw o ganiadau ar amryw destynau, gwedi eu cyfansoddi ar fesur cerdd... gyda naw o hymnau duwiol* (Caerfyrddin 1791)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20555787](https://www.wikidata.org/wiki/Q20555787)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>^[g]

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

